

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Mount

Pleasant / Bwrdd Iechyd Prifysgol

Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ionawr
2022

Dyddiad cyhoeddi: 14 Ebrill 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	31
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Mount Pleasant yn 36 Mount Pleasant Avenue, Llanrhymni, Caerdydd, CF3 5SZ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 13 Ionawr 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015), a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod yr adeilad wedi'i gadw at safon dda gydag ardaloedd clinigol a oedd yn llawn offer ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Gwelsom dystiolaeth fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau da ar waith i amddiffyn y cleifion a'r staff.

Fodd bynnag, canfuom nad yw'r practis yn amddiffyn y cleifion, y staff a'r ymwelwyr mewn modd digonol rhag risgiau tân a chysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau
- Roedd gan y practis bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel
- Roedd y cleifion yn hapus â'r gofal roeddent wedi'i dderbyn gan y practis
- Roedd y practis yn dilyn canllawiau atal a rheoli heintiau ac roedd yr offer a'r amgylchoedd yn rhoi amgylchedd glân, croesawgar a phleserus i'r cleifion a'r staff

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai ardaloedd a reolir pan fydd yr uned belydr-X yn cael ei defnyddio gael eu nodi'n fwy clir
- Dylid cynnal asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân yn rheolaidd
- Dylai taflenni a gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch hyrwyddo iechyd y geg fod ar gael i'r cleifion fynd â nhw gartref gyda nhw
- Dylai barn ac adborth y cleifion am y practis gael eu casglu a dylid gweithredu arnynt i sicrhau gwelliant parhaus

- Dylid storio biniau a ddefnyddir i gael gwared ar eitemau miniog yn ddiogel yn briodol i atal y risg o anaf i'r staff

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn a oedd yn gofyn am gamau unioni ar unwaith.

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad hwn ynglŷn â diogelwch tân, diffyg datganiad o ddiben hygyrch i'r practis, a'r broses o gasglu barn y cleifion. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad C. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r unigolyn cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfedd â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Mount Pleasant yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanrhymni, Caerdydd. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol gymwysedig ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac i'r GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod Practis Deintyddol Mount Pleasant yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Rhoddodd yr holl gleifion ymatebion cadarnhaol inni pan ofynnwyd iddynt am y practis deintyddol.

Fodd bynnag, dylai'r practis roi gwybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion am iechyd y geg.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r gofal bob amser wedi bod yn wych.”

“Nid oes unrhyw beth y gallant ei wneud i wella'r gwasanaeth. Practis rhagorol.”

“Mae gwasanaeth da bob amser ac rydych yn cael apwyntiad brys os oes angen. Mae'r deintydd a'r staff bob amser yn gwrtais.”

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mwy o ddeintyddion fel bod mwy o apwyntiadau ar gael.”

Cadw'n iach

Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob claf heblaw am ddau a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Cefnogwyd hyn gan y cofnodion deintyddol a welsom. Roedd tystiolaeth yn y

cofnodion deintyddol yn dangos bod gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu, hylendid y geg a deiet yn cael ei rhoi i'r cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod o'r farn eu bod yn rhan o'r penderfyniadau mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth ddeintyddol.

Fodd bynnag, er nad yw'r gwaith o gyflwyno taflenni yn cael ei annog ar hyn o bryd yn sgil risg heintio COVID-19, canfuom y dylai'r practis ystyried argaeledd gwybodaeth ysgrifenedig ddigonol pan fydd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu er mwyn hyrwyddo iechyd a hylendid y geg neu er mwyn egluro'r triniaethau deintyddol gwahanol y gellir eu cynnig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r cleifion i baratoi ar gyfer llai o gyfyngiadau COVID-19 er mwyn hyrwyddo iechyd a hylendid y geg ac i egluro'r triniaethau a gynigir.

Gofal ag urddas

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom staff y dderbynfa yn siarad â'r cleifion yn y practis mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Cafodd galwadau ffôn i'r practis eu trin gan aelod o staff wrth ddesg y dderbynfa. Pe bai claf yn gofyn am sgwrs breifat ag aelod o staff, byddai hon yn cael ei chynnal mewn ystafell driniaeth dros ben y tu ôl i ddrws caeedig i amddiffyn preifatrwydd y claf. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisiau priodol ynghylch urddas a pharch a bod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw ar gau pan oedd yr ystafelloedd yn cael eu defnyddio, i ddiogelu preifatrwydd y cleifion hefyd.

Nid oedd y practis yn arddangos copi o'r Cod Moeseg ac Ymarfer Proffesiynol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r safonau proffesiynol y gall cleifion ddisgwyl i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol weithredu oddi tanynt. Tynnodd yr arolygydd sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn yn ystod yr arolygiad ac mae bellach wedi'i ddatrys.

Mae llenni'r ffenestri wedi cael eu tynnu i alluogi awyru ychwanegol i gael ei osod fel rhan o'r mesurau i amddiffyn yn erbyn COVID-19. Gan fod y ffenestri yn eithaf mawr a bod y practis mewn ardal breswyl brysur iawn, roedd hyn yn golygu bod pobl sy'n mynd heibio ac yn y tai i'r cyferbyn i'r practis deintyddol yn gallu gweld i mewn i'r ystafelloedd triniaeth. Felly, ni allai preifatrwydd y cleifion gael ei warantu drwy'r amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ffenestri i ardaloedd sy'n wynebu'r cleifion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag golwg pobl eraill y tu allan i'r practis.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm deintyddol wedi'u helpu i ddeall eu hanghenion o ran triniaeth a'r opsiynau oedd ar gael iddynt mewn ffordd briodol. Nododd pob claf ei fod yn teimlo ei fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â'i driniaeth.

Cawsom ystod gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer y practis. Hefyd, gwelsom y daflen wybodaeth fanwl i gleifion a oedd yn cwmpasu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Fodd bynnag, roedd hon ond ar gael i'r cleifion ar gais ar hyn o bryd er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau atal a rheoli heintiau sydd mewn grym ynghylch COVID-19.

Roedd gan y practis wybodaeth wedi'i harddangos yn y ddwy ystafell aros a oedd yn nodi costau ar gyfer triniaethau'r GIG. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos ynglŷn â'r pris ar gyfer y triniaethau preifat gwahanol a gynigir yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Arddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â chost triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG a gynigir yn y practis
- Sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r daflen wybodaeth i gleifion a'i gwneud ar gael yn fwy hawdd i'r cleifion fel y mae'r cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu dros y ffôn sydd ar gael drwy'r bwrdd iechyd i'r cleifion ei gyrchu pe bai'n well ganddynt gyfathrebu mewn iaith wahanol i'r Saesneg. Fodd bynnag, nododd llai na thraean o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur y gofynnwyd iddynt am yr iaith a ffefrir ganddynt. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion ateb bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn yr iaith a ffefrir ganddynt er y dywedodd sawl un nad oedd ar gael.

Nid oedd gan y practis unrhyw hysbysiadau na gwybodaeth yn cael eu harddangos i annog cleifion a fyddai'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth bellach yn y Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'.¹

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau y gofynnir i'r cleifion am yr iaith a ffeirir ganddynt wrth ymweld â'r practis
- Sicrhau bod y cleifion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog a'u helpu i wneud hynny
- Arddangos arwyddion a phosteri yn Gymraeg ynghyd â Saesneg
- Gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth bellach yn y Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'

Gofal amserol

Nododd 17 o'r 20 claf a ymatebodd i'r holiadur ei fod yn "hawdd iawn" neu "eithaf hawdd" i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu gweld mewn pryd. Pe bai deintydd yn hwyr gyda chlaf arall, dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion a chynnig aildrefnu apwyntiad pe bai angen.

Byddai cleifion yr oedd angen apwyntiad brys arnynt yn ystod oriau agor y practis yn cael eu gweld ar yr un diwrnod pryd bynnag y bo modd. Cafodd y cleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys y tu allan i oriau arnynt eu cyfeirio at rif ffôn penodol a arddangosir ar ddrws y practis neu at Galw Iechyd Cymru am gyngor. Roedd y wybodaeth hefyd wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, dywedodd chwe chlaf nad oeddent yn gwybod sut i gyrchu'r gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o sut i gyrchu triniaeth frys pan fydd angen.

¹ Ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. <https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol>

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o sut i gyrchu triniaeth ddeintyddol frys pan fydd angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd yr holiadur y cafodd cwestiynau eu gofyn iddynt am eu hanes meddygol bob amser pan fyddant yn dod i'r practis. Cadarnhawyd hyn gan y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom ei hadolygu. Canfuom fod hanes meddygol cychwynnol a hanes meddygol diweddaedig cleifion wedi cael eu cofnodi'n gyson ac yn briodol. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y canllawiau proffesiynol er mwyn sicrhau bod y tîm deintyddol yn ymwybodol o ryngweithiadau posibl rhwng y driniaeth ddeintyddol a wnaed ac unrhyw gyflyrau meddygol a oedd gan y claf eisoes, ac yn eu deall.

Gwnaethom gadarnhau hefyd fod cynlluniau triniaeth effeithiol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion gofal deintyddol y cleifion. Dangosodd yr holl gofnodion gofal deintyddol a welwyd fod cleifion yn derbyn cyngor mewn perthynas â gwella gofal iechyd y geg.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis Bolisi Cyfle Cyfartal ar waith a oedd yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod gan gleifion fynediad at driniaeth deg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, roedd y polisi yn cydnabod yr angen i roi triniaeth a gwasanaethau i bob claf, waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig.²

Gwelsom fod y mynediad at y practis yn dda. Er bod y practis wedi'i rannu dros ddau lawr, roedd ystafell aros ac ystafell driniaeth i lawr y grisiau ger y brif dderbynfa. Fodd bynnag, roedd y toiled i'r cleifion ar y llawr cyntaf, sydd ond yn hygyrch i fyny grisiau. Nid oedd hyn yn amlwg ar unwaith wrth fynd i mewn i'r

² Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn drosedd gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodweddion gwarchodedig. <https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

practis, ac nad oedd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.³ Mae'n rhaid i hyn gael ei gynnwys yn y daflen i sicrhau bod y cleifion hynny sydd ag anawsterau hygrychedd yn cael eu hysbysu cyn ymweld â'r practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau i dynnu sylw at unrhyw heriau o ran cael mynediad
- Bod y polisi derbyn cleifion yn cael ei ddiweddarau i sicrhau bod cleifion newydd yn cael eu hysbysu am yr heriau o ran cael mynediad cyn iddynt ddod i'r practis

Gwrando a dysgu o adborth

Cyn y pandemig, roedd y practis yn croesawu adborth trwy blwch sylwadau wedi'i leoli wrth ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd hwn wedi cael ei dynnu i lynu at ganllawiau atal a rheoli heintiau COVID-19, a oedd yn golygu nad oedd adborth gan y cleifion yn cael ei gasglu bellach.

Yn ddiweddar, roedd adborth a ddarparwyd i'r practis wedi arwain at welliannau i'r toiled i'r cleifion er mwyn cynorthwyo'r cleifion hynny sydd ag anawsterau symudedd. Dangoswyd y gwelliant hwn ar boster "dywedo chi, gwnaethon ni" wedi'i lamineiddio yn ystafelloedd aros y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi a gweithdrefn gwyno gynhwysfawr a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion penodol a amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y polisi hwn wedi'i arddangos i'r cleifion ar hysbysfyrdau yn yr ystafelloedd aros ac yn amlinellu sut y gallai cleifion gwyno'n ffurfiol i'r practis. Roedd hyn yn cynnwys at bwy y dylid cyfeirio cwyn ac amserlen i ddisgwyl ymateb. Fodd bynnag, er bod y polisi yn cyfeirio at drydydd partïon a allai gynorthwyo gyda'r broses o wneud cwyn, ni ddarperid unrhyw fanylion

³ Dogfen yw "taflen wybodaeth i gleifion" sydd wedi'i llunio yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac sy'n hysbysu'r cleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis ynghyd â gwybodaeth arall, megis enwau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis a sut i wneud cwyn.

cyswllt ar gyfer y sefydliadau hyn. Yn ogystal, nid oedd unrhyw fanylion am sut i gysylltu ag AGIC.

Pan holwyd y staff, nid oeddent yn ymwybodol a oedd gan y practis gofnod ar gyfer cwynion cleifion. Er yr adroddodd y staff na wneid cwynion yn aml, pe bai sawl cwyn sy'n ymwneud â materion tebyg yn codi, gallai themâu cyffredin a meysydd i'w gwella gael eu colli.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Ceisio adborth gan gleifion ynglŷn â'r practis i sicrhau bod gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud
- Diweddarau'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt llawn, gan gynnwys cyfeiriad a rhifau ffôn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Gweithio i Wella'r GIG, a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol
- Gweithredu cofnod ysgrifenedig ar gyfer cwynion i sicrhau bod themâu allweddol a meysydd sydd angen gwelliant yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol

Gwelsom fod gan amgylchedd y practis deintyddol ddigon o offer a bod mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth fod angen rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cleifion, y staff a'r ymwelwyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol rhag risgiau sy'n ymwneud â thân a chysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Gofal diogel: rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas mewn grym i sicrhau diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis. Roedd tu allan y practis wedi'i gadw'n dda ac roedd y tu mewn yn lân ac yn olau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod carped mewn ardaloedd anghlinigol. Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried newid y llawr hwn i lawr anhydraidd neu lawr y gellir ei sychu'n lân.

Gwelsom ystod o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol i sicrhau bod y practis yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Roeddent wedi cael eu llofnodi gan bob aelod o staff ac yn cynnwys cynllun parhad busnes a pholisi iechyd a diogelwch ynghyd ag asesiad risg ar gyfer y practis.

Roedd y practis yn gweithredu polisi drws dan glo i gleifion, sy'n golygu mai dim ond y cleifion oedd ag apwyntiad a allai ddod i'r safle. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael wrth fynd i'r practis a gofynnwyd i gleifion oedd yn ymweld wisgo masg. Gwareddwyd â theganau a chylchgronau o'r ystafelloedd aros yn unol â chanllawiau COVID-19 a chaniateir un claf yn unig ym mhob ystafell aros ar unrhyw adeg.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y practis; roedd hyn yn gyfredol ac yn cynnwys offer a deunyddiau priodol. Mae'r rheolwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Roedd gan y practis bedwar diffoddwr tân ar ddau lawr y practis. Roedd y rhain wedi cael eu gosod i'r wal ac yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant tân ac roedd y staff yn gwybod y weithdrefn ar gyfer gwacáu'r practis yn brydlon pe bai tân. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u marcio'n glir gyda'r arwyddion priodol ac roedd arwyddion dim ysmegu wedi'u harddangos i atgoffa staff ac ymwelwyr o'r ddeddfwriaeth dim ysmegu ar y safle. Roedd gan y practis bolisi tân ar waith. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg cynhwysfawr wedi'i gynnal yn y practis. Mae'n rhaid i hwn gael ei gwblhau er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r ymwelwyr.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr arwynebau gwaith yn yr ystafell ddihalogi yn rhydd ac nad oedd y sêl i'r wal bellach yn ddigonol. Gallai hyn greu ardal na ellir ei glanhau'n ddigonol a gallai arwain yn ei dro at risg o heintiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod asesiad risg tân yn cael ei gynnal a bod unrhyw gamau a nodir ynddo yn cael sylw yn brydlon
- Bod y cypyrddau yn yr ystafell ddihalogi wedi'u gosod yn gadarn i'r wal ac y defnyddir seliwr digonol ar gyfer yr uniad â'r wal

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis fesurau atal a rheoli heintiau addas ar waith ar gyfer dihalogi (glanhau a sterileiddio) offerynnau a chyfarpar deintyddol. Roedd hyn yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁴ ac yn cynnwys polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog i'r staff.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o gontractau a oedd ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel. Cafodd gwastraff clinigol ei gadw'n briodol mewn garej dan glo.

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol mewn ystafell ddihalogi benodol. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau paramedr dyddiol ac wythnosol o'r glanhäwr uwchsonig a'r awtoclaf yn cael eu cofnodi i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn a bod contract gwaith cynnal a chadw

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

mewn grym ar gyfer gwasanaethu'r awtoclaf yn rheolaidd. Roedd gan y practis lif gwaith brwnt i lân ar waith yn yr ystafell ddihalogi i atal offerynnau glân rhag cael eu halogi. Gwelsom dystiolaeth fod blychau diogel yn cael eu defnyddio i gludo offerynnau wedi'u halogi o'r ystafell driniaeth i'r ystafell ddihalogi mewn modd diogel. Roedd gan y staff ardal benodol i wisgo a thynnu eu gwisg clinigol.

Gwelsom fod yr holl eitemau diangen wedi'u symud o ystafell driniaeth y ddeintyddfa i ganiatáu glanhau effeithiol mewn ymateb i'r pandemig. Dywedwyd wrthym y byddai'r offerynnau yn cael eu paratoi cyn y driniaeth. Gwnaethom gadarnhau bod amser digonol yn cael ei ddyrannu rhwng cleifion i alluogi cyfnod segur⁵ yn dilyn gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol⁶ a bod modd glanhau'r ystafell driniaeth yn drylwyr gan ddefnyddio deunyddiau glanhau cymeradwy.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff sy'n ymgymryd â gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol wedi cael prawf ffitio⁷ ar gyfer masgiau FFP3.⁸ Gwelsom staff yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol cywir⁹ ar bob adeg ym mhob rhan o'r practis.

Roedd y practis yn cwblhau archwiliadau atal a rheoli heintiau yn rheolaidd ac roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar gyfer gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ym maes deintyddiaeth.

Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod biniau offer miniog yn cael eu storio'n anghywir mewn cypyrddau yn yr ystafelloedd triniaeth. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r staff dynnu'r bin offer miniog bob tro bod angen iddynt gael gwared â'u hoffer miniog. Roedd hyn, yn ei dro, yn golygu bod y staff mewn perygl uwch

⁵ Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol sy'n caniatáu i unrhyw ddefnydd setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

⁶ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddiau.

⁷ Mae prawf ffitio yn ddull o wirio bod cyfarpar diogelu personol tynn yn gweddu i wyneb yr aelod o staff ac yn selio'r wyneb yn ddigonol.

⁸ Nodwyd yr angen i wisgo masg FFP3 (amddiffyniad anadlol ar ffurf masg untro ar gyfer y geg a'r trwyn) trwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i amddiffyn rhag pathogenau a gludir yn anadlol. Er mwyn defnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r staff perthnasol gael prawf ffitio'r wyneb er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael masg sy'n ffitio'r wyneb mewn ffordd addas a'i fod yn gweithredu i'r effeithlonrwydd gofynnol.

⁹ Mae cyfarpar diogelu personol yn gyfarpar a fydd yn amddiffyn y defnyddiwr yn erbyn risgiau iechyd a diogelwch yn y gwaith.

o gael anaf gan offer miniog gan y gallai'r bin gwympo neu ollwng ei gynnwys wrth ei dynnu o'r cwpwrdd. Felly, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella lleoliad y biniau offer miniog a ddefnyddir er mwyn atal y risg hon.

Yn ogystal, gwelsom eitemau oedd wedi'u sterileiddio ymlaen llaw yn nroriau'r ystafelloedd triniaeth a oedd yn cael eu cadw yn anghywir gyda deunydd lapio oedd wedi cael ei dorri neu ei rwygo. Pan fydd codenni sterileiddio yn cael eu difrodi, dylid ailbroseu eitemau y tu mewn iddynt a'u storio mewn cwdyn sterileiddio newydd. Gan nad oedd hyn yn wir, ni allem fod yn sicr fod yr eitemau hyn yn ddi-haint.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod biniau offer miniog a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cael eu lleoli'n ddiogel i atal y risg o anaf sy'n ymwneud ag offer miniog
- Bod offerynnau a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol mewn deunydd lapio sydd heb ei ddifrodi. Dylid ailbroseu eitemau a gedwir mewn deunydd lapio wedi'i ddifrodi ar unwaith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom gadarnhau bod gan y practis bolisi ar waith i gwmpasu'r gwaith o ddefnyddio offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys. Roedd hyn yn unol â'r safonau cyfredol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Dadebru (DU) ac roedd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Roedd offer dadebru, gan gynnwys diffibriliwr allanol awtomatig¹⁰ ac ocsigen a ddefnyddir mewn achos brys, wedi cael eu gwirio bob wythnos ac roeddent yn cael eu cadw'n ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi cael eu hyfforddi'n addas a'u bod yn gyfredol o ran hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd¹¹ mewn argyfwng a hyfforddiant argyfyngau meddygol.

Gwelsom dystiolaeth o bolisiau perthnasol ar gyfer storio, trin, archebu a rhoi meddyginiaethau mewn modd diogel ac effeithiol. Roedd meddyginiaeth ragnodedig yn cael ei dogfennu yng nghyfnodion deintyddol y cleifion ac yn dilyn

¹⁰ Defnyddir diffibriliwr allanol awtomatig i helpu'r rhai sy'n cael ataliad y galon yn sydyn.

¹¹ Mae dadebru cardio-pwlmonaidd yn weithdrefn mewn argyfwng i unigolyn y mae ei galon wedi stopio neu unigolyn nad yw'n anadlu mwyach. Gall dadebru cardio-pwlmonaidd gynnal cylchrediad y gwaed ac anadlu hyd nes bod [cymorth meddygol brys](#) yn cyrraedd.

canllawiau rhagnodi cyfredol. Roedd y staff yn ymwybodol o sut i adrodd am adwaith niweidiol i feddyginiaeth trwy'r cynllun cerdyn melyn.¹²

Yn sgil gwaith arsylwi mewn pob ystafell driniaeth, gwelwyd bod padiau rhagnodi wedi cael eu gadael yn nroriau'r ystafelloedd triniaeth. Dylai padiau rhagnodi gael eu cadw dan glo hyd nes bod eu hangen, er mwyn atal defnydd heb awdurdod.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod padiau rhagnodi yn cael eu cadw dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod yr holl staff yn ymwybodol o sut i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, ac wedi derbyn hyfforddiant i lefel briodol. Y rheolwr cofrestredig oedd hefyd yr arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y practis ac roedd wedi cwblhau lefel uwch o hyfforddiant diogelu er mwyn cyflawni'r rôl hon. Yn ogystal, roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael i'r staff drwy ap ffôn symudol. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi cael gwiriadau boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.¹³

Er bod y staff yn ymwybodol bod angen iddynt gysylltu â'u tîm diogelu lleol pe bai pryder ganddynt am blentyn neu oedolyn agored i niwed, nid oedd gan y staff y manylion cyswllt ar gael iddynt yn rhwydd. Gallai hyn atal adrodd digwyddiad a welwyd yn amserol a allai nodi bod plentyn neu oedolyn mewn perygl. .

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gan y staff fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer y tîm diogelu lleol ar gael yn rhwydd iddynt.

¹² <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

¹³ Mae gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn broses a ddefnyddir gan gyflogwyr a sefydliadau i gael darlun clir o gofnod troseddol unigolyn.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom arolygu'r cyfleusterau clinigol ac ardaloedd eraill o'r practis a chanfod bod yr offer deintyddol mewn cyflwr rhagorol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod gan y ddeintyddfa'r offer priodol i'r cleifion a'r tîm deintyddol.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol i'w rôl a bod polisi ar ymbelydredd gan y practis. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis brotocolau, polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith i bob math o archwiliad radiograffig a gynigir yn y practis. Roedd y rhain wedi cael eu hadolygu a'u llofnodi gan bob aelod o staff. Roedd offer radiograffig wedi cael ei gofrestru'n gywir gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ymbelydredd ïoneiddio. Roedd gan y practis gynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd.¹⁴ Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis gontract mewn grym i sicrhau gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr offer radiograffig a bod archwiliadau radiograffig rheolaidd yn cael eu cynnal. Gwelsom fod y practis wedi arddangos y rheolau lleol¹⁵ ar gyfer pob peiriant pelydr-X yn y practis mewn lle priodol.

Fodd bynnag, nid oedd yr arwyddion i rybyddu'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr o'r ardaloedd a reolir oherwydd presenoldeb ymbelydredd ïoneiddio wedi'u harddangos yn gywir. Canfuom fod un arwydd bach yn unig a oedd yn weladwy, ger pob un o'r peiriannau radiograffig. Nid oedd gan y practis arwyddion ar y drysau i'r ardaloedd a reolir i rybuddio'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr o'r risg ychwanegol o ymbelydredd ïoneiddio pe baent yn mynd i mewn.

Yn ogystal, nid oedd gan y practis ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd benodol.¹⁶ Yn lle, cafodd dogfennau eu rhannau dros nifer o ffeiliau dogfennau eraill. Pe bai digwyddiad mewn perthynas â'r offer radiograffeg yn y practis, gallai hyn achosi oedi i gamau adfer prydlon gan y rheolwr cofrestredig.

¹⁴ "Cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd" yw swydd a gynabyddir yn gyfreithiol, sef rhywun sy'n gymwys i gynghori gweithwyr ar y defnydd diogel a chydymffurfiol o ymbelydredd ïoneiddio ("pelydrau-X").

¹⁵ ¹⁵ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â rheoli diogelwch laserau, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau o ddydd i ddydd.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

¹⁶ Dylai ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gadw'r rheolau lleol a'r gweithdrefnau ysgrifenedig sydd wedi'u sefydlu gan yr unigolyn cyfreithiol (y cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd).

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod arwyddion addas yn cael eu harddangos y tu fewn a'r tu allan i'r ardal a reolir i rybuddio'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr o'r risgiau uwch yn sgil ymbelydredd ïoneiddio
- Bod ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd benodol yn cael ei chreu i gadw'r holl ddogfennau a gwybodaeth angenrheidiol sy'n ymwneud â'r offer radiograffig yn y practis

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis drefniadau priodol mewn perthynas â derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion newydd. Gwelsom dystiolaeth hefyd o bolisi cydsynio cyfredol i sicrhau y ceir y cydsyniad gwybodus cywir cyn bod unrhyw driniaeth ddeintyddol yn cael ei chynnal.

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi ar waith i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i ganllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol, a'u bod yn cael eu dilyn pan fo hynny'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)¹⁷.

Wrth adolygu cofnodion gofal deintyddol y cleifion, gwnaethom sylwi nad oedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol.¹⁸ Byddem yn argymhell bod y practis yn defnyddio'r rhain lle bynnag y bo triniaethau llawfeddygol neu echdyniadau syml yn cael eu cynnal yn y practis. Mae hyn yn sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu i'r cleifion bob amser.

¹⁷ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yw'r corff sy'n darparu arweiniad a chynghor i wella gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

¹⁸ "Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol" – mae'r rhain yn rhestrau gwirio sydd wedi'i llunio i sicrhau nad yw "digwyddiadau byth" (e.e. y dant anghywir yn cael ei dynnu mewn lleoliad deintyddol) yn digwydd o gwbl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio wrth ymgymryd â thriniaethau llawfeddygol neu echdyniadau syml

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau sydd wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd gan y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar gyfer rheoli heintiau ac archwiliad rhagnodi gwrthfeicrobaidd. Gwelsom dystiolaeth hefyd o offeryn Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth¹⁹ oedd wedi'i gwblhau'n ddiweddar.

Canfuom fod y rheolwr cofrestredig yn cynnal adolygiadau addas gan gymheiriaid fel rhan o'i waith gydag adolygydd cymheiriad allanol, yn unol ag amodau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gan nad oedd y practis yn casglu barn ac adborth gan y cleifion, ni welsom dystiolaeth o welliannau i ddarpariaeth y gwasanaeth o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, gwnaeth adolygiad o lyfr damweiniau'r practis awgrymu y byddai arferion gwaith yn cael eu newid, yn dilyn digwyddiadau, i'w hatal rhag digwydd eto.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi a system reoli briodol ar waith i sicrhau bod cofnodion gofal deintyddol y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Canfuom fod y practis yn rheoli gwybodaeth am gleifion mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).²⁰

¹⁹ Mae'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn adnodd datblygu ymarfer ar gyfer y tîm deintyddol cyfan sy'n helpu timau deintyddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

²⁰ Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yw fframwaith cyfreithiol sy'n nodi'r canllawiau ar gyfer casglu a phrosesu gwybodaeth bersonol gan unigolion sy'n byw yn yr Undeb Ewropeaidd. Gan fod y rheoliad yn berthnasol waeth ble mae gwefannau wedi'u cadw, rhaid i bob safle sy'n denu ymwelwyr Ewropeaidd ei ystyried, hyd yn oed os nad ydynt yn marchnata nyddau na gwasanaethau i breswylwyr yr UE yn benodol.

Roedd cofnodion cleifion wedi'u storio'n electronig ar gyfrifiaduron sydd wedi'u gwarchod gan gyfrinair. Roedd copïau o'r cofnodion electronig hyn yn cael eu cadw wrth gefn yn rheolaidd, fel bod y data'n gallu cael ei gyrchu pe bai cyfrifiadur yn methu.

Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion deintyddol y cleifion a chanfuom arferion da ar y cyfan.

Canfuom fod y cofnodion deintyddol yn gywir yn gyffredinol a'u bod wedi eu hysgrifennu'n gyfoes. Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cynnwys manylion asesiadau a chynlluniau ar gyfer triniaeth, ynghyd â thriniaeth a ddarparwyd yn ystod yr apwyntiad. Nodwyd hanes deintyddol a chymdeithasol blaenorol hefyd ochr yn ochr â hanes meddygol ac roedd y rhain yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd.

Roedd cofnodion deintyddol yn cael eu storio'n ddigidol a'u cadw am gyfnod o wyth mlynedd ac roedd copi wrth gefn yn cael ei gadw'n allanol.

Roedd ychydig o'r wybodaeth ar goll o rai o'r cofnodion deintyddol y gwnaethom eu hadolygu, fel a ganlyn:

- Nid oedd gan un claf ddsbarthiad cyfnodontal neu asesiad dilynol o iechyd cyfnodontal
- Ni wnaeth un arall ymddangos i fod â thystiolaeth o radiograffau
- Ni wnaeth un set o gofnodion deintyddol ymddangos i fod â manylion wedi'u cofnodi o archwiliad

Mae'n bwysig bod cofnodion deintyddol yn llawn ac wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau y rhoddir asesiadau a thriniaeth briodol i'r claf mewn modd amserol.²¹

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau cadw cofnodion deintyddol yn cael eu hailadrodd yn rheolaidd, yn unol â chanlyniadau'r archwiliad, i sicrhau y gweithredir ar feysydd i'w gwella mewn modd amserol.

²¹ "Dosbarthiad cyfnodontal" – dyma ddsbarthiad o iechyd cyfnodontal cyffredinol neu iechyd cig y dannedd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o dîm agos a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Roedd pob aelod o'r tîm deintyddol wedi'u cofrestru â'u corff llywodraethu ac roedd gwiriadau priodol cyn cyflogi ar waith.

Roedd gan y practis ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal y practis deintyddol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y rheolwr cofrestredig yn berchen ar Bractis Deintyddol Mount Pleasant ac ef oedd yr unigolyn cyfrifol a'r prif ddeintydd hefyd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gyfrifol am y gwaith o gynnal y practis o ddydd i ddydd ac roedd hefyd yn cael ei gefnogi gan dîm o nyrsys deintyddol cymwysedig, a oedd hefyd yn cyflawni rôl y derbynnydd pan fydd angen.

Roedd yr holl staff wedi bod yn y practis am gyfnod sylweddol ac, yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Pan holwyd y staff, roeddent yn ymwybodol o bwy i adrodd iddynt pe byddent yn teimlo bod angen codi pryder neu gŵyn yn y practis.

Gwnaethom nodi bod gan y practis ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd taflen wybodaeth i gleifion fanwl wedi'i hysgrifennu ac ar gael ar gais i'r cleifion a gwelsom fod y practis wedi arddangos ei dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Gwnaethom nodi bod y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ynglŷn â digwyddiadau yr oedd angen eu hadrodd i AGIC mewn modd amserol.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nid oedd y staff neu'r rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o ddatganiad o ddiben y practis²² neu le y gall y ddogfen hon fod wedi'i lleoli. Er y rhoddwyd y ddogfen hon i'r arolygydd ar ddyddiad hwyrach, nid oedd wedi'i hadolygu na'i diweddarau yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu deintyddiaeth breifat yng Nghymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod datganiad o ddiben y practis yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau a'i roi i AGIC bob blwyddyn, neu ynghynt os gwneir newid i'r practis.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Dangosodd adolygiad o ffeiliau personél y staff fod gan yr holl staff parhaol yn y practis dystysgrifau manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd²³ ar gyfer gweithlu plant ac oedolion. Gwelsom dystiolaeth hefyd yn y ffeiliau hyn bod yr holl aelodau o staff clinigol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig fod y broses gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei hariannu ganddo, ynghyd ag yswiriant indemniad sy'n ofynnol fel rhan o gofrestriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ogystal, roedd yr holl staff sy'n gweithio yn glinigol wedi darparu tystiolaeth o imiwneiddio yn erbyn hepatitis B gydag ymateb imiwnyddol priodol. Roedd y staff hefyd wedi darparu tystiolaeth o gael y brechlyn COVID-19 lle bo hynny'n bosibl.

Roedd hyfforddiant gorfodol y staff yn gyfredol ac roedd copïau o dystysgrifau yn cael eu cadw yn ffolderi'r staff fel tystiolaeth. Roedd hyfforddiant yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yn cael ei ariannu pan fo

²² Dogfen yw'r "datganiad o ddiben" sy'n cael ei llunio yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac mae'n rhoi manylion i'r cleifion am nodau ac amcanion y practis deintyddol, y triniaethau a gynigir, enwau a chymwysterau y gweithwyr proffesiynol deintyddol sy'n gweithio yn y practis, a sut i wneud cwyn.

²³ Mae gofyn am wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd yn debygol y bydd unigolyn yn gweithio mewn rôl a allai gynnwys cysylltiad â phlant neu oedolion agored i niwed. Ochr yn ochr â'r gwiriadau safonol a sylfaenol sy'n chwilio am gollfarnau a rhybuddiadu o natur droseddol, bydd gwiriad manylach hefyd yn chwilio am rybuddion a cheryddon a wnaed i'r unigolyn hwnnw.

modd gan y rheolwr cofrestredig. Gwelsom fod yr holl staff wedi cael arfarniadau blynyddol ac roedd cofnodion o'r rhain hefyd yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Er nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ffurfiol eto, dywedwyd wrthym y byddai hyn yn cael ei archwilio fel modd o wella arweinyddiaeth a rheolaeth yn y practis ymhellach.

Roedd y lefelau staffio yn foddhaol ac roedd staff a oedd wedi cael hyfforddiant addas yn y practis bob amser er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ac roedd y staff yn deall sut i godi pryder pe bai angen.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff y practis fel arfer yn cael eu cynnal ar sail anffurfiol, ad hoc ac nid oeddent yn cael eu cofnodi. Er mwyn sicrhau cynnydd a gwelliant parhaus, byddem yn argymhell y dylid cynnal cyfarfodydd staff yn fwy ffurfiol ac yn fwy rheolaidd a'u bod yn cael eu cofnodi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cael eu cofnodi.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle y gwnaethom roi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ein hysbysu o'r camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Pan ydym yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwys achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau o bractisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Diben hyn yw fel bod trefniadau'n gallu cael eu gwneud i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ôl yr arfer, ac fel bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied â phosibl.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) ac, mewn achosion lle y darperir deintyddiaeth breifat, sut maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Mount Pleasant

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Y camau sydd i'w cymryd	Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd UNRHYW faterion dyrbryd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Mount Pleasant

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r cleifion i baratoi ar gyfer llai o gyfyngiadau COVID-19 er mwyn hyrwyddo iechyd a hylendid y geg ac egluro'r triniaethau a gynigir.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd; Rheoliad 9(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi archebu gwybodaeth newydd i gleifion ynglŷn â hyrwyddo iechyd a hylendid y geg. Hefyd taflenni sy'n egluro opsiynau triniaeth gwahanol.	Edvard Akbas	4 wythnos
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ffenestri i ardaloedd sy'n wynebu'r cleifion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag golwg eraill y tu allan i'r practis.	4.1 Gofal ag urddas; Rheoliad 15, Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae cwmni wedi cytuno i osod llenni newydd.	Edvard Akbas	4 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifafat (Cymru) 2017			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Arddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â chost triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG a gynigir yn y practis - Sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r daflen wybodaeth i gleifion a'i gwneud ar gael yn fwy hawdd i'r cleifion fel y mae'r cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu	4.2 Gwybodaeth i gleifion, Rheoliad 9(a)(b) a 6(1)(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd gwybodaeth ynglŷn â ffioedd y GIG a ffioedd preifat yn cael ei harddangos yn yr ystafelloedd aros cyn gynted ag y mae cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu. Bydd y daflen wybodaeth i gleifion gael ei diweddararu a'i harddangos yn yr ystafelloedd aros pan fydd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu hynny.	Kelly Kinson	Cyn gynted â phosibl
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: Sicrhau y gofynnir i'r cleifion am yr iaith a ffefrir ganddynt wrth ymweld â'r practis	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; Rheoliad 13(3)(a), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn arddangos posteri a gwybodaeth mewn sawl iaith os yw hynny'n bosibl. Rhoddir yr opsiwn i'r cleifion ddefnyddio'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall o'u dewis.	Edvard Akbas	2 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
- Sicrhau bod y cleifion sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog a'u helpu i wneud hynny - Arddangos arwyddion a phosteri yn Gymraeg ynghyd â Saesneg - Gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth bellach yn y Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o sut i gyrchu triniaeth ddeintyddol frys pan fydd angen.	5.1 Mynediad amserol; Rheoliad 13(9), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae gennym wybodaeth yn yr ystafelloedd aros a gwybodaeth wedi'i harddangos mewn ffenestri sy'n wynebu'r fynedfa. Mae gwybodaeth ar gael ar y peiriant ateb.	Kelly Kinson	Cyn gynted â phosibl
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:	6.2 Hawliau pobl; Rheoliad 13(a), Rheoliadau Deintyddiaeth	Bydd y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau a'i harddangos yn yr	Edvard Akbas	Cyn gynted â phosibl

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
- Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diwedddaru i dynnu sylw at unrhyw heriau o ran cael mynediad - Bod y polisi derbyn cleifion yn cael ei ddiwedddaru i sicrhau bod cleifion newydd yn cael eu hysbysu am yr heriau o ran cael mynediad cyn iddynt ddod i'r practis	Breifat (Cymru) 2017	ystafelloedd aros cyn gynted ag y mae cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu. Byddwn yn diwedddaru ein polisi i gleifion newydd er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r heriau o ran cael mynediad wrth fynychu'r practis. Byddwn yn ei arddangos yn yr ystafelloedd aros pan fydd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu hynny.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Ceisio adborth gan gleifion ynglŷn â'r practis i sicrhau bod gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud - Diwedddaru'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt llawn, gan gynnwys cyfeiriad a rhifau ffôn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Gweithio i Wella'r GIG, a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol	6.3 Gwrandio a dysgu o adborth, Rheoliad 16(2)(b)(ii) a (2)(c), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn ceisio adborth gan y cleifion ar newidiadau ar wneir i'r practis. Byddwn yn diwedddaru ein polisi cwynion fel ei fod yn cynnwys manylion cyswllt llawn ar gyfer: AGIC, Gweithio i Wella'r GIG a Gwasanaeth Cwynion Deintyddol. Byddwn yn gweithredu cofnod ysgrifenedig ar gyfer cwynion.	Edvard Akbas	4 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gweithredu cofnod ysgrifenedig ar gyfer cwynion i sicrhau bod themâu allweddol a meysydd sydd angen gwelliant yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: - Bod asesiad risg tân yn cael ei gynnal a bod unrhyw gamau a nodir ynddo yn cael sylw yn brydlon - Bod y cypyrddau yn yr ystafell ddihalogi wedi'u gosod yn gadarn i'r wal ac y defnyddir seliwr digonol ar gyfer yr uniad â'r wal	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliad 22(4), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae cwmni wedi cytuno i gynnal asesiad risg tân a bydd yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl. Bydd y cypyrddau yn yr ystafell ddihalogi yn cael eu diogelu a'u selio'n gywir.	Edvard Akbas Kelly Kinson	Yn aros i'r cwmni drefnu dyddiad. 2 wythnos
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: Bod biniau offer miniog a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cael eu lleoli'n ddiogel i atal	2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi, Rheoliad 13, Rheoliad Deintyddiaeth	Cafodd biniau offer miniog eu symud i leoliad diogel y diwrnod ar ôl yr arolygiad.	Kelly Kinson	Wedi'i wneud

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
y risg o anaf sy'n ymwneud ag offer miniog Bod offerynnau a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol mewn deunydd lapio sydd heb ei ddifrodi. Dylid ailbrosesu eitemau a gedwir mewn deunydd lapio wedi'i ddifrodi ar unwaith.	Breifat (Cymru) 2017	Mae newidiadau/rheolaethau newid wedi cael eu gweithredu i sicrhau bod offerynnau yn cael eu cadw mewn deunydd lapio nad yw wedi'i ddifrodi.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod padiau rhagnodi yn cael eu cadw dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	2.6 Rheoli meddyginiaethau; Rheoliad 13(9), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Mae protocolau wedi cael eu gweithredu i sicrhau bod padiau rhagnodi yn cael eu cadw dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	Kelly Kinson	Wedi'i wneud
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gan y staff fanylion cyswllt cyfredol ar gyfer y tîm diogelu lleol ar gael yn rhwydd iddynt.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl; Rheoliad 14, Rheoliadau Deintyddiaeth	Mae manylion cyswllt cyfredol ar gyfer y tîm diogelu lleol ar gael yn hawdd i'r holl staff.	Kelly Kinson	4 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifaf (Cymru) 2017			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: - Bod arwyddion addas yn cael eu harddangos y tu fewn a'r tu allan i'r ardal a reolir i rybuddio'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr o'r risgiau uwch yn sgil ymbelydredd ïoneiddio - Bod ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd benodol yn cael ei chreu i gadw'r holl ddogfennau a gwybodaeth angenrheidiol sy'n ymwneud â'r offer radiograffig yn y practis	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017; Rheoliad 13, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Cafodd arwyddion eu harddangos yn yr ardaloedd ymbelydredd ïoneiddio wythnos ar ôl dyddiad yr arolygiad. Mae ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd wedi'i llunio gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol.	Kelly Kinson Edvard Akbas	Wedi'i wneud
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: Bod rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwthiol yn cael eu defnyddio wrth ymgymryd â thriniaethau llawfeddygol neu echdyniadau syml	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol; Rheoliad 13(8), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Byddwn yn gweithredu'r defnydd o restrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwthiol yn y practis cyn gynted â phosibl.	Edvard Akbas	2 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau cadw cofnodion deintyddol yn cael eu hailadrodd yn rheolaidd, yn unol â chanlyniadau'r archwiliad, i sicrhau y gweithredir ar feysydd i'w gwella mewn modd amserol.	3.5 Cadw cofnodion; Rheoliad 20, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi penderfynu i gael archwiliad blynyddol o archwiliadau cadw cofnodion.	Edvard Akbas	Wedi'i wneud
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod datganiad o ddiben y practis yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau a'i roi i AGIC bob blwyddyn, neu ynghynt os gwneir newid i'r practis.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd; Rheoliad 5, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Bydd datganiad o ddiben y practis yn cael ei adolygu bob blwyddyn a bydd yn cael ei anfon bob blwyddyn.	Edvard Akbas	1 wythnos
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cael eu cofnodi.	7.1 Y gweithlu; Rheoliad 15(3), Rheoliadau Deintyddiaeth	Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi.	Edvard Akbas	Cyn gynted â phosibl

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifaf (Cymru) 2017			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Edvard Advar Akbas

Swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 07/03/2022